

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 5 Mawrth, 2018 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol:

Cyng. Llinos Price (*Cadeirydd*)
Cyng. Ann Stokoe
Cyng. Peter Williams
Cyng. Lloyd Jenkins
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Lyn Jones
Cyng. Des Davies
Cyng. Matthew Morgan
Cyng. Auriol Williams
Cyng. Clive Davies (*aelod lleol y Cyngor Sir*)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, bawb i gyfarfod mis Mawrth. Estynnodd gydymdeimlad y Cyngor i'r Cynghorydd Auriol Williams a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth o golli ei mam, Mrs Mair Elias. Yn yr un modd, cyfeiriwyd at farwolaeth Mrs Barbara Bennett, priod y Parchedig John Bennett, a fu farw'n ddiweddar. Gofynnodd y Cadeirydd bawb i sefyll fel arwydd o goffadwriaeth. Diolchodd y Cyng. Auriol Williams am y gefnogaeth a'r geiriau caredig. Gofynnwyd i'r Clerc anfon carden o gydymdeimlad at y Parchedig John Bennett.
2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyngh. Eurig Lloyd, Dilwyn Jenkins.
3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol:**
Cynigiwyd gan y Cyng. Ann Stokoe ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion mis Chwefror yn gywir.
4. **Datgelu buddiannau personol:** Dim
5. **Materion yn codi:**
 - (a) **Baw Cŵn:** Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus yn festri Capel Penyparc ar 12 Chwefror. Trafodwyd y posibiladau o ddefnyddio system DNA er mwyn darganfod cŵn a'u perchnogion. Argymhellwyd defnyddio cynllun "Dog Watch" sydd wedi ei fabwysiadu yn Llandudoch tan reolaeth Cyngor Sir Penfro gydag aelodau'r cyhoedd yn monitro'r sefyllfa. Mae'r broblem yn cynyddu mewn manau cyhoeddus megis caeau chwarae i blant a'r cae pêl-droed. Diolchwyd i athrawon a disgyblion Ysgol Gynradd Penyparc am eu cefnogaeth i greu posteri i dynnu sylw at y broblem anghymdeithasol yma sydd yn anharddu'r palmentydd a'r llwybrau yn ogystal. Dywedodd y Cadeirydd y Cyng. Llinos Price a'r Cynghorydd Peter Williams bod gwelliant i'w weld yn yr ardal. Datganwyd gan y PCSO Matthew Kieboom fod profion DNA wedi eu defnyddio'n llwyddiannus yn Sir Benfro a bod troseddwr wedi ei erlyn. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'n bosib i'r Cyngor Sir gynorthwyo gyda chost arwyddion yn hysbysu'r cyhoedd o ddiryw hyd at £1,000 am droseddu. Llongyfarchodd y Cyng. Clive Davies y Cadeirydd am drefnu cyfarfod llwyddiannus a ddaeth â'r broblem i sylw'r cyhoedd.
 - (b) **Brynteg, Ferwig:** Dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb oddi wrth Mr Bell, perchennog Brynteg. Dywedodd y Cyng. Matthew Morgan byddai'n gofyn i Mr Robert Morgan a oedd ganddo ddiddordeb i gyflawni'r gwaith.
 - (c) **Cysgodfannau Bysys Penyparc:**
 - (i) Yn dilyn gohebiaeth rhwng y Clerc a Mrs Meinir Davies, swyddog grantiau cymunedol y Cyngor Sir, mae'r ffurflen gais wedi ei derbyn gan yr adran i adnewyddu cysgodfan bysys ger garej O. C. Davies a'r Mab.
 - (ii) Disgwylir ateb i ymholiad y Cyngor am gyfrifoldeb cyfreithiol y ganolfan bysys ger Pwllbwmpwr.
 - (d) **Traeth Pistyll Ifor:** Yn dilyn cwyn ynglŷn â chyflwr cyffredinol y traeth, gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Mrs Daniel yn dweud nad yw'r Cyngor fel rheol yn derbyn cwynion ar lafar ond yn unig drwy lythyr neu e-bost. Nid yw'r Cyng. Dilwyn Jenkins wedi cael cyfle i drafod gyda swyddogion Sianel Glir Afon Teifi gan fod y traethau o dan eu rheolaeth hwy.
 - (e) **Gwteri'r Gymuned:** Mae'r gwaith o glirio'r gwteri yn mynd yn ei flaen.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc (mis Tachwedd)	£150
Ysgol Feithrin Penyparc	£2,000
Papur Bro "Y Gambo"	£150
Cyngor ar Bopeth	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Gŵyl Fawr Aberteifi	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Cangen Samariaid Aberystwyth	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Gofal Mewn Galar	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Gofal Canser Tenovus	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Aren Cymru	I'w drafod ym mis Ebrill 2018

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

7. Cynllunio:

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau
A180146	Maes Awyr Gorllewin Cymru, Parc Technoleg, Blaenporth: Seilwaith maes awyr newydd yn cynnwys adeilad terminws, 2 sied awyrennau, gorsaf dân, storws tanwydd, mynediad newydd i gerbydau a pharcio gyda'r ganolfan hyfforddi technegol a gwesty cysylltiedig, hydro-break, cyfleustra dwr tanddaearol.	Nid oes gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad

8. Materion Ariannol:

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Chwefror 2018)	101672	£308.77
Costau'r Clerc (Chwefror 2018)	101673	£49.80
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Chwefror 2018)	101674	£77.20

Cynigiwyd gan y Cyng. Matthew Morgan ac eiliwyd gan y Cyng Peter Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Derbyniadau: Dim.

Materion ariannol eraill: Dim.

9. Gohebiaeth:

87	Cyngor Sir Ceredigion (Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw)	Gweithdy: "Trawsnewid Gofal Cymdeithasol a Lles", Penmorfa, 27/2/18, 10.00-12.00 canol dydd.	Blaenyrrwyd ar 13/2/18.
88	Un Llais Cymru	Gwahoddiad i ailgofrestru aelodaeth am y flwyddyn 2018-19 = £184	Cytunwyd i beidio ailymaelodi.
89	Gofal Mewn Galar	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill
90	Aren Cymru	Taith Dros Fywyd, o Ebrill hyd Fehefin 2018: "Yn cefnogi teuluoedd, yn newid bywydau."	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill
91	Cyngor Sir Ceredigion (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau)	Nodiadau'r cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ceredigion a'r Cyngorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2018, hefyd y cyflwyniad a roddwyd ar y noson.	Blaenyrrwyd ar 28/2/18. O ddiddordeb yw'r system CLIC fydd yn darparu gwasanaeth digidol mwy effeithiol gan y Cyngor Sir. Disgwylir i'r Cyngor Sir drefnu hyfforddiant i glercod yn ystod y misoedd nesaf.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

92	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	Cais gan Ysgrifennydd y Cabinet (Llywodraeth Cymru) i brif gynghorau gynnal arolygon cymunedol	Blaenyrrwyd ar 28/2/18. Gwybodaeth i'r Cyngor Sir ar yr argymhellion sydd ganddynt i ailstrwythuro'r cymunedau o fewn ei awdurdod. Ar hyn o bryd, nid oes gan y cymunedau llai unrhyw sylwadau i'w gwneud
----	---------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

10. Materion Eraill:

- Sbwriel ar draeth Patch:** Dywedodd y Cyng. Llinos Price fod bagiau baw cŵn wedi eu gadael ar hyd y traeth a ger y bin sbwriel. Mae angen hel gwybodaeth am gyfrifoldeb y Cyngor Sir i glirio'r biniau a'r llanast yn gyffredinol
- Anedd ym mhentref y Ferwig:** Cwestiynwyd ffiniau'r cyrb a osodwyd tu allan i dŷ newydd yn y Ferwig.
- Y lôn sy'n arwain ar y traeth yn Patch:** Derbyniwyd cwyn bod ceubyllau ar y lôn a chytunwyd i'r clerc hel gwybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir.
- Y ffordd tua'r Ferwig ger Brynllynan:** Mae angen llenwi'r ceubyllau ar y ffordd.

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies

- Place Plans:** Dywedodd y Cyng. Davies bod "Cynnal y Cardi" yn ystyried ariannu'r cynllun er mwyn cynorthwyo cynghorau tref a bro i symud y prosiect ymlaen.
- Muriau allanol Heol y Felin:** Mae'r muriau mewn amryw o fannau mewn cyflwr gwael ac mewn perygl o syrthio. Mae'r Cyng. Davies wedi cysylltu â chwmni Tai Ceredigion Cyf. sydd wedi addo cyflawni'r gwaith mewn da bryd.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 9 Ebrill (YB)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2018

14 Mai (F) 4 Mehefin (YB)

2 Gorffennaf (F) 3 Medi (YB) 1 Hydref (F) 5 Tachwedd (YB) 3 Rhagfyr (F)

Dynoda F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 5 March, 2018 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Present

Cllr Llinos Price (*Chairperson*)
Cllr Ann Stokoe
Cllr Peter Williams
Cllr Lloyd Jenkins
Hildreth Owen (Clerk)

Cllr Lyn Jones
Cllr Des Davies
Cllr Matthew Morgan
Cllr Auriol Williams
Cllr Clive Davies (*local member of the County Council*)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Llinos Price, welcomed everyone to the March meeting. She offered the condolences of all members to Cllr Auriol Williams and family following the loss of her mother, Mrs Mair Elias. Likewise, condolences were offered to the Reverend John Bennett, following the recent passing of Mrs Barbara Bennett. Members showed their respect in the usual manner. The Clerk agreed to forward a sympathy card to Mr Bennett.
- 2. Apologies for absence:** Cllrs Eurig Lloyd, Dilwyn Jenkins
- 3. Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Ann Stokoe and seconded by Cllr Peter Williams that the January minutes be recorded as correct.
- 4. Declaration of personal interests:** Nil.
- 5. Matters arising:**
 - (a) **Dog fouling:** A successful public meeting was held in the vestry of Capel Penyparc on 12 February. The possibility of using DNA technology to detect dogs and irresponsible owners was discussed. It was suggested that the "Dog Watch" scheme might be considered as adopted in St Dogmaels under the jurisdiction of Pembrokeshire County Council with members of the public monitoring the situation. The problem is on the increase in public places such as playing fields, children's play area and pathways. The staff and pupils of Ysgol Gymunedol Penyparc were thanked for their assistance in producing posters advertising the event and drawing the public's attention to this most anti-social of problems. The Chairperson, Cllr Llinos Price, and Cllr Peter Williams stated that an improvement had been noticed in the area. PCSO Matthew Kieboom mentioned that DNA testing had proved to be successful in Pembrokeshire and that an offender had been prosecuted. The Chairperson added that there was a possibility that the County Council might supply signage highlighting the £1,000 fine for offending. Cllr Clive Davies congratulated the Chairperson for organising the event and drawing the public's attention to the problem.
 - (b) **Brynteg, Ferwig:** The Clerk stated that no response had been received from Mr Bell, the owner of Brynteg. Cllr Matthew Morgan agreed to ask Mr Robert Morgan whether he might be interested to complete the work.
 - (c) **Penyparc Bus Shelters:**
 - (i) Following the correspondence between the Clerk and Mrs Meinir Davies, grants officer of the County Council, the appropriate grant form has been completed and forwarded to the department for assistance to provide a new bus shelter near the O. C. Davies & Son garage.
 - (ii) A response is awaited to the Council's request for information regarding the legal obligations of the owners of the Pwlllybwper bus shelter.
 - (d) **Evelyn Beach:** A complaint was received from Mrs Shirley Daniel regarding the condition of Evelyn's Beach in Gwbert. The Clerk was requested to inform Mrs Daniel that normally only written complaints are received by the Council. Cllr Dilwyn Jenkins is to give an update after discussing the matter with the Afon Teifi Fairways committee, the body responsible for its upkeep.
 - (e) **The community Gutters:** The work to clear the guttering is now under way.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed at the April 2018 meeting
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£150
Ysgol Feithrin Penyparc	£2,000
Local Welsh newspaper "Y Gambo"	£150
Citizens' Advice Bureau	To be discussed at the April 2018 meeting
Gŵyl Fawr Aberteifi	To be discussed at the April 2018 meeting
Ceredigion Young Farmers' Clubs	To be discussed at the April 2018 meeting
Aberystwyth Samaritans	To be discussed at the April 2018 meeting
Tenovus Cancer Care	To be discussed at the April 2018 meeting
Kidney Wales	To be discussed at the April 2018 meeting

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

7. Planning:

Application Number	Address & Purpose	Council's Comments
A180146	West Wales Airport, Technology Park, Blaenannerch "New Airport infrastructure including Terminal building, 2 hangers, fire station, fuel storage, new vehicular access and parking with associated Hotel and Technical Training Centre Hydro-Break, underground surface water facility"	Members have no objection.

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's wages (February 2018)	101672	£308.77
Clerk's Expenses (February 2018)	101673	£48.00
HM Customs & Excise (Clerk's Income Tax February 2018)	101674	£77.20

It was proposed by Cllr Matthew Morgan and seconded by Cllr Peter Williams that the above bills be paid.

Receipts: Nil

Other Financial Matters: Nil

9. Correspondence:

87	Ceredigion County Council (Director for Care, Protection and Lifestyle)	Workshop: "The Transformation of Social Care and Wellbeing", Penmorfa, 27/2/18, 10.00-12.00 noon.	Forwarded to members on 13/2/18.
88	One Voice Wales	Invitation to renew membership for the year 2018-19 = £184	It was agreed not to rejoin.
89	Cruse Bereavement Care	Request for financial support	To be discussed at the April meeting
90	Kidney Wales	Walk for life April to June 2018: "Supporting Families, Changing Lives"	To be discussed at the April meeting
91	Ceredigion County Council (Democratic Services and Standards Officer)	Notes of the meeting between Ceredigion County Council and Town and Community Councils in Ceredigion that was held on 16 January 2018; also the presentation given on the evening.	Forwarded to members on 28/2/18. The minutes taken of the meeting held on 16 January are included in the report. Of interest, the proposed new CLIC system of communication with the County Council was outlined. It is expected that formal training for clerks will be offered soon.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

92	Local Democracy and Boundary Commission for Wales	Request from Cabinet Secretary for Finance and Local Government to provide a review of local communities within their authority.	Forwarded to members on 28/2/18. Notification from the Commission of the request to County Councils to restructure the communities within their authority. There is no request at the moment for the town and community councils to respond to this.
----	---------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

10. Other matters:

- (a) **Rubbish at Patch beach:** Cllr Llinos Price stated that dog fouling bags were left on the beach and near the rubbish bin point. The Clerk was asked to request information as to the responsibility of the County Council to clear the rubbish from the beach.
- (b) **Household on the perimeter of Ferwig:** The front curtilage of the property needs to be defined.
- (c) **The lane from the highway to the beach at Patch:** Complaints regarding the potholes on the lane have been received. Information is required from the County Council as the responsible party to repair the damage.
- (d) **The road near Brynllynan:** Potholes on the highway are in need of repair. The Clerk agreed to inform the County Council.

11. County Councillor’s Report – Cllr Clive Davies:

- (a) **Place Plans:** Cllr Davies informed the Council that “Cynnal y Cardi” was considering funding local councils to assist with the scheme.
- (b) **Curtilage walls of the Heol y Felin estate:** A number of walls on the estate are in a poor condition and in danger of causing damage and injury. Cllr Davies has reported this to Tai Ceredigion Cyf. who have promised to assess the condition as soon as possible.

12. Date of next meeting: 9 April (YB) at Ystafell Berkley, Penyparc

The remaining 2018 Council Meetings

14 May (F) 4 June (YB)

2 July (F) 3 September (YB) 1 October (F) 5 November (YB) 3 December (F)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley